



Papur Briffio: Rhaglen Waith y Comisiynydd 2017-18

Briff Rhaglen Waith 2017-18

Mae'r Comisiynydd wedi datblygu ei Rhaglen Waith ar gyfer 2017-18 ar sail y blaenoriaethau yn ei Fframwaith Gweithredu:

- Sicrhau bod lles pobl hŷn wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus
- Gwella ansawdd, argaeledd a mynediad at ofal cymdeithasol ac iechyd
- Gwarchod a gwella gwasanaethau, cyfleusterau a'r seilwaith cymunedol
- Cynrychioli pobl hŷn sydd mewn perygl o niwed a sicrhau eu bod yn cael eu diogelu a'u gwarchod
- Mynd i'r afael â rhagfarn, anghydraddoldeb a gwahaniaethu

Ceir disgrifiad isod o fanylion y gwaith sydd ar y gweill yn ystod 2017-2018.

Gwaith Dilydol ar yr Adolygiad o Gartrefi Gofal

Pan gyhoeddodd y Comisiynydd ei hadroddiad Adolygiad o Gartrefi Gofal, roedd yn glir y byddai'n ymgymryd â rhaglen benodol o waith dilydol er mwyn sicrhau eu bod wedi cyflawni ei hymrwymadau, gyda ffocws penodol ar unrhyw feysydd lle roedd angen gwaith pellach er mwyn sicrhau cyflawni'r canlyniadau ar gyfer pobl hŷn yn yr adroddiad.

Bydd y wybodaeth y gwnaed cais amdani am y cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn yr 14 o Ofynion Gweithredu a nodwyd gan y Comisiynydd yn cael ei dadansoddi a bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd yn datgan y newid sydd wedi'i wneud a'r arfer da sydd ar droed yn awr o ganlyniad i'r adolygiad. Hefyd bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at unrhyw feysydd lle mae angen gwaith ychwanegol er mwyn creu'r newid mae pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal ledled Cymru eisiau ac angen ei weld.

Diogelu Pobl Hŷn mewn Ysbytai

Bydd y Comisiynydd yn adolygu'r camau gweithredu y mae Byrddau Iechyd yn eu cymryd er mwyn gwneud yn siŵr bod pobl hŷn yn cael eu diogelu rhag niwed yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi adroddiad yn gynnar yn 2018 a fydd yn darparu dadansoddiad manwl o'r sefyllfa bresennol ac yn rhoi enghreifftiau o arfer da i Fyrddau Iechyd eu defnyddio i wella eu prosesau diogelu.

Mynediad at Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol a Phrofiadau o hynny

Mae'r wybodaeth a gasglwyd drwy gyfrwng tîm gwaith achos y Comisiynydd yn dynodi bod pobl hŷn yn gallu cael trafferth cael gwasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol, sy'n gallu eu cefnogi i gael mwy o ddewis a rheolaeth dros eu bywydau.

Felly mae'r Comisiynydd yn edrych ar brofiadau pobl hŷn o gael mynediad at Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol a'i defnyddio a bydd yn cyhoeddi adroddiad a chyfarwyddyd yn datgan y sefyllfa bresennol yng Nghymru a ble gellir gwneud gwelliannau.

Meddwl Eto am Ofal Seibiant

Un maes allweddol sy'n peri pryder y tynnwyd sylw ato yn adroddiad y Comisiynydd yn 2016, Dementia: mwy na dim ond colli'r cof oedd diffyg gofal seibiant hyblyg, galluogol a phersonol i bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofaluwr.

Felly bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi adroddiad a phhecyn adnoddau i Awdurdodau Lleol a fydd yn tynnu sylw at realiti'r ddarpariaeth seibiant bresennol ledled Cymru ac yn datgan sut dylid cyflwyno gofal seibiant, yn unol â Fframwaith Gwasanaethau Cymdeithasol a Chanlyniadau Lles Llywodraeth Cymru.

Diogelu Pobl Hŷn

Bydd gwaith i godi ymwybyddiaeth o raddfa ac effaith cam-drin ac esgeuluso pobl hŷn yn parhau drwy gydol 2017-18, ochr yn ochr â gwaith i hybu arferion da y gellid ei ehangu i sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu gwarchod a'u diogelu'n well.

Bydd hyn yn cynnwys cyfres o seminarau ar gyfer staff gwasanaethau cyhoeddus, a fydd yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth i sicrhau eu bod yn gallu diogelu a gwarchod pobl hŷn yn fwy effeithiol; ymgysylltu a gwaith parhaus gyda byrddau diogelu ledled Cymru; a chyhoeddi canllawiau ar gyfer gweithwyr proffesiynol rheng flaen ar y ffyrdd mwyaf effeithiol o ymateb pan mae person hŷn yn cael ei gam-drin.

Dysgu oddi wrth Waith Achos

Bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi llyfr achosion yn dangos y problemau a'r heriau mae pobl hŷn sy'n cysylltu â'r tîm gwaith achos yn eu hwynebu a'r camau gweithredu a roddir ar waith i ddatrys eu problemau.

Ar ôl cyhoeddi'r llyfr achos, bydd y Comisiynydd yn cynnal cyfres o seminarau ledled Cymru ar gyfer y rhai sy'n darparu gwasanaethau i bobl hŷn, i hybu arfer da wrth ddarparu gwasanaethau ac i ystyried sut i roi sylw i themâu trawsbynciol sydd wedi'u datgan drwy waith achos y Comisiynydd.

Dadansoddiad o Ddatganiadau Ansawdd Blynyddol y Byrddau Iechyd

I sicrhau bod pobl hŷn a'u teuluoedd yn gallu cael gwybodaeth ystyrlon am ansawdd y gofal a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd yn eu hardal, bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi dadansoddiad o Ddatganiadau Ansawdd Blynyddol y Byrddau Iechyd.

Yn dilyn dadansoddiad o'r Datganiadau Ansawdd Blynyddol, bydd adborth manwl yn cael ei roi i Fyrddau Iechyd i sicrhau bod y wybodaeth maent yn ei darparu'n berthnasol ac ar gael yn hwylus.

Heneiddio'n Dda yng Nghymru

Bydd Cam Dau Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru yn parhau yn ystod 2017-18, gyda phartneriaid cenedlaethol – gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, y sector gwirfoddol a'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu – yn gweithio i gyflawni ar amrywiol ymrwymadau o dan bum thema allweddol y rhaglen Heneiddio'n Dda (cymunedau o blaid pobl hŷn, cymunedau sy'n cefnogi pobl â dementia, lleihau codymau, unigrwydd ac arwahanrwydd, cyfleoedd ar gyfer dysgu a chyflogaeth). Bydd gwaith yn dal i fynd rhagddo hefyd i ddatblygu mwy ar rwydweithiau lleol Heneiddio'n Dda a chefnogi grwpiau lleol ac unigolion i'w helpu i weithredu drostynt eu hunain i hybu cynhwysiant ac annibyniaeth, yn ogystal â chynnal eu cadernid eu hunain, drwy gefnogaeth uniongyrchol a thrwy ddatblygu ymhellach gyngor ac adnoddau arbenigol y gall unigolion gael mynediad atynt yn rhwydd a'u defnyddio.

Ymgysylltu â phobl hŷn ledled Cymru

Bydd y Comisiynydd a'i thîm yn parhau i deithio pob cwr o Gymru i ymgysylltu ag ystod amrywiol o bobl hŷn a sicrhau bod eu lleisiau'n dal i arwain a siapio gwaith y Comisiynydd.

Hefyd bydd y Sioe Deithiol Ymgysylltu'n gyfle i'r Comisiynydd sicrhau bod pobl hŷn ledled Cymru'n gwybod am ei rôl, ei gwaith a'i blaenoriaethau, ac am sut gall ddarparu cymorth uniongyrchol iddynt drwy gyfrwng ei Thîm Gwaith Achos.

Hefyd bydd y Comisiynydd yn parhau i weithio gyda phobl hŷn drwy gyfrwng grwpiau a sefydliadau pobl hŷn mwy ffurfiol, fel Fforymau Strategaeth 50+ yr Awdurdodau Lleol, y Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol, Confensiwn Cenedlaethol y Pensiynwyr, Cynghair Pobl Hŷn Cymru, Active Wales a Senedd Pobl Hŷn Cymru.

Dylanwadu ar Bolisi, Deddfwriaeth ac Ymarfer

Yn ychwanegol at y gwaith sydd wedi'i ddatgan uchod, bydd y Comisiynydd yn parhau i ddylanwadu ar amrywiaeth eang o bolisiâu, deddfwriaethau ac arferion, gan gynnwys hawliau pobl hŷn a dylanwadu ar faterion cysylltiedig â gofal cymdeithasol yn ogystal â materion heb gysylltiad ag iechyd. Cyflawnir hyn drwy gyfarfodydd parhaus ag Ysgrifenyddion Cabinet a Gweinidogion Cymru, Aelodau Cynulliad a'r Swyddogion, darparu ymatebion i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cymru a rhoi tystiolaeth i Bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol.

Bydd y gwaith hwn yn sicrhau bod lleisiau a phrofiadau pobl hŷn yn cael eu hystyried pan mae polisiâu'n cael eu datblygu a bod arferion dilynol yn adlewyrchu eu hanghenion ac yn creu canlyniadau positif.



Older People's Commissioner for Wales Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn hyrwyddwr ac yn llais annibynnol ar ran pobl hŷn ledled Cymru, gan sefyll i fyny a siarad ar eu rhan.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, eu bod yn cael dewis a bod ganddynt reolaeth, nad ydynt yn teimlo'n unig nac yn dioddef gwahaniaethu a'u bod yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n lle da i heneiddio ynddo - nid i rai pobl yn unig, ond i bawb.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Rhif ffôn: 08442 640 670

E-bost: ask@olderpeoplewales.com
Gwefan: www.olderpeoplewales.com

Twitter: [@talkolderpeople](https://twitter.com/talkolderpeople)